



Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol

Bydd enwebiadau ar gyfer Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol 2023 yn agor ar 1 Ebrill 2022 ac yn cau ar 14 Medi 2022.

Mae'n rhaid cyflwyno enwebiadau drwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein yn: <https://qavs.dcms.gov.uk/>

Mae'n rhaid i'r ffurflen enwebu a'r llythyrau ategol beidio â chael eu hysgrifennu na'u cyflwyno gan wirfoddolwr, gan gyflogai, gan ymddiriedolwyr neu gan unrhyw un sydd ynghlwm wrth redeg y grŵp.

Caiff y Gwobrau eu cyhoeddi ar 2 Mehefin, sef pen-blwydd coroni Ei Mawrhydi.

Mae Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol ar gyfer **grwpiau eithriadol** o wirfoddolwyr sy'n gwneud argraff gadarnhaol yn eu cymunedau ac sy'n **gwneud lles i bobl eraill** drwy eu gwaith. Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr sydd wedi mynd ati ar eu liwt eu hunain i greu, **arwain a gyrru** gwaith eu sefydliad yn ei flaen, ac sy'n gwneud hyn mewn ffordd sy'n wirioneddol **arbennig a rhagorol.**



Cymer Afan Community Library



Amgueddfa'r Môr Porthmadog Maritime Museum



queensaward@dcms.gov.uk



020 7271 6206



Swansea Community Farm



The Roots Foundation Wales



Friends of Pontypool Town

Gofynion o ran cymhwysra

- ✓ Mae'n rhaid i dri o bobl neu fwy ffurfio'r grŵp.
 - ✓ Mae'n rhaid i'r grŵp fod wedi'i leoli yn y DU, Ynysydd y Sianel neu Ynys Manaw.
 - ✓ Mae'n rhaid i'r grŵp fod wedi bod yn gweithredu am o leiaf tair blynedd.
 - ✓ Mae'n rhaid iddo ddarparu budd lleol arbennig.
 - ✓ Does dim disgwyl i Wobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol gael ei defnyddio ar gyfer sefydliadau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae modd enwebu cangen unigol sy'n gwasanaethu cymuned leol.
 - ✓ Rydym yn chwilio am dystiolaeth bod y gwirfoddolwyr yn cychwyn ac yn rheoli gwaith y grŵp. Byddem yn disgwyl fod gan y grŵp fwy o wirfoddolwyr na staff cyflogedig.
 - ✓ Mae'n rhaid bod gan fwy na hanner y gwirfoddolwyr yn y grŵp yr hawl i breswyllo yn y DU.
- X Nid yw grwpiau sy'n gweithredu er lles anifeiliaid yn unig yn gymwys.

I weld y gofynion manwl a rhagor o wybodaeth am grwpiau sy'n ganghennau o sefydliadau cenedlaethol, sydd wedi'u lleoli mewn lleoliadau statudol, sy'n codi arian a/neu sy'n rhoi grantiau, ewch i:

<https://qavs.dcms.gov.uk/>



Welshpool & Llanfair Light Railway



queensaward@dcms.gov.uk



020 7271 6206